Llongyfarchiadau mawr Elen a Simon
Pob bendith!

Nid ar y wasg mae'r bai!

Peth dyrys iawn yw mathemateg yn enwedig mathemateg y misoedd. Fe wn yn iawn fod saith diwrnod mewn wythnos, ac fe wn i fod rhwng 28 a 31 diwrnod mewn mis!



Mae'r drafferth yn codi pan fo hi'n fis Mehefin a'r Sul cyntaf ar y trydydd. Mae fy ymenydd bychan yn gallu gweithio yn dda a dweud fod hynny yn golygu y bydd y 10, 17 a 24 yn ddydd Sul. Ond dyma lle daw'r cam gwag sydd yn fy nhaflu dros y dibyn! Heb feddwl dim pa fis yw hi, dyma benderfynu fod 31 diwrnod ym mis Mehefin ... wps! Nid trafferth mewn siop argraffu sydd yn golygu fod y rhifyn bychan hwn yn cyrraedd wythnos yn hwyr ond cam gwag un o'r golygyddion ... "yr un efo barf" brysiodd y llall i ychwanegu. Ond dyna ni heb ei fai heb ei eni medda nhw, ac un o heriau mawr yr efengyl yw yr her i syrthio ar eich bai. Heb syrthio ar eich bai wyddoch chi ddim am lawenydd maddeuant dim ond euogrwydd parhaus y ceisio cuddio bai.

Dwi ddim yn credu fod Gorffennaf neb wedi ei sbwylio wrth gael rhifyn o *Perthyn* ar y cyntaf o'r mis, ond ymddiheuriadau lu yr un fath. Gobeithio y cewch flas ar y danteithion er eu bod nhw wythnos yn hwyr – ond mae ambell un yn hwyr ym mhob man!

Gair gan y gweinidog.

Un, dau, tri, mam yn dal pry!

1
2
3
4
5
6
7
8
9
10
11
12

Na, nid dal pryfed mae criw 'Ffydd a Phaned' ar brynhawn dydd Gwener ond yn hytarch edrych ar rifau. Yn dilyn ychydig o ad-drefnu, fe symudodd dosbarth oedolion yr Ysgol Sul o fore Sul i nos Fawrth a da dweud bod y penderfyniad yn un llwyddiannus gyda nifer yn dod at ei gilydd dan arweiniad doeth Dr Brynley Roberts. Cyfrol Elfed ap Nefydd Roberts, *Dehongli Meddwl Pedr* yw'r maes llafur diweddar a phrofiad bendithiol yw cael cyfle i drin a thrafod y person rhyfeddol hwnnw!

Beth felly am gyfarfod arferol nos Iau yn y Morlan? "Fe awn i'r prynhawn!" medde rhywun, "ac fe gawn baned gyda'r drafodaeth!" Rhyfedd fel mae paned yn hybu cymdeithas ac felly mae hi bob prynhawn Gwener yn y Morfa. Cyfle i gymdeithasu a chyfle i drafod ac unwaith yn rhagor mae'r trefniadau'n gweithio. Mewn cyfrolau sy'n trin a thrafod natur ac effeithiolrwydd bywyd eglwysig, fe ddywedir droeon fod paratoi cyfleon i drafod yn holl bwysig i fywyd a thyfiant cynulleidfa leol.

Yn hanesyddol bu'r Ysgol Sul yn allweddol i addysg a thyfiant ysbrydol eglwysi Cymru ac yn arbennig felly yn y cyd destun anghydffurfiol. Y mae Griffith Jones, Llanddowror ymhlith cewri'r genedl, gwaith a deunydd Cyngor Ysgolion Sul yn gryfach heddiw nag erioed a diolch am Ysgolion Sul byw ac effro sy'n parhau i ddarparu ar gyfer cenhedlaeth newydd o blant a hwythau wrth eu bodd! Ar y 15fed o Orffennaf fe fyddwn yn dod at ein gilydd fel eglwys i ddathlu gwaith yr Ysgol Sul yn y Morfa. Fe fydd y tymor yn dod i ben tan Medi ac felly'n gyfle i ddiolch i chi fel rhieni am eich cefnogaeth, yr athrawon am eu gwaith ac i'r plant am eu ffyddlondeb a'u hasbri. Bendith i mi'n bersonol yw eu presenoldeb a'u

bywiogrwydd, yn ein hatgoffa o Sul i Sul ein bod yn 'deulu'. Ewch ati i sôn am y gwaith a gwahodd teuluoedd newydd i ymuno â ni.

Y drefn ar hyd y blynyddoedd yn y cyfarfod wythnosol yw dewis pwnc a'i drafod am rhyw bum cyfarfod. Newid o drafodaeth gyffredinol i astudio'r Ysgrythurau a gallwch ddychmygu bod ystod y cynnwys wedi bod yn amrywiol. Y tymor yma mae'r criw wedi bod yn edrych ar RIFAU a hynny fel symboliaeth neu dim byd mwy na ffigwr gan ganolbwyntio ar yr Hen Destament a'r Newydd. Cafwyd cyfle i edrych ar Lyfr Numeri, y rhif 7 sy'n symbol o Gysegredigrwydd Dwyfol, Iago fab Alffeus, un o'r 12 disgybl, 4 cymeriad dameg y Samariad Trugarog a phrynhawn Gwener, yr 22ain o Fehefin, llythyrau Paul at Timotheus a Titus - 3 ohonynt. Yn yr amrywiaeth yna mi 'rydan ni wedi cael cyfle i esbonio, i rannu ac i ddeall a gobeithio fod y cyfan wedi arwain at ddeallusrwydd newydd o bethau Duw.

Bu perthynas Paul â Timotheus a'r ddealltwriaeth o batrwm y gymuned Gristnogol ar ddiwedd y ganrif gyntaf a hyd at ganol yr ail ganrif yn gyfrwng i'n hatgoffa o natur perthynas Cristnogion ond hefyd gofal y gymuned honno o'i phobl a thu hwnt. Sylw rhai yn ystod cyfnod yr Eglwys Fore wrth edrych ar y Cristnogion cynnar oedd "gwelwch y fath gariad sydd gan y rhain tuag at ei gilydd!" Gweddi rhywun yw fod hyn yn dal i gael ei ddweud am yr Eglwys ond hefyd mewn cymdeithas yn gyffredinol. Y mae dangos trugaredd, yn ei hanfod yn weithred ddwyfol, ac er pa mor ymarferol y mae'n ymddangos ar adegau, yn dangos Duw ar waith yn ei gariad a'i gyfiawnder. O sylweddoli hynny y mae rhywun yn adnabod ei gymydog ac o weithredu, yn adeiladu ac yn ymestyn Teyrnas Dduw.

Hufen iâ amdani y dyddiau yma!

Eifion

Agor y Llyfr - Eglwysi Ardal Aberystwyth

Daeth aelodau o ofalaeth y Garn a Chapel y Morfa i'r cyfarfod agored a drefnwyd gan Meleri Cray, cydlynydd Agor y Llyfr yng Nghymru yn Festri'r Morfa fis Medi diwethaf gyda'r bwriad o sefydlu tîm Agor y Llyfr yn ardal Aberystwyth. Cawsom ein cyflwyno i'r cynllun trwy wylio'r ffilm ac ymgyfarwyddo â'r adnoddau a'r canllawiau diogelwch.

Cytunwyd fod y ddwy ofalaeth yn ffurfio un tîm fel ein bod yn gweithio ar y cyd ac yn rhannu adnoddau. Erbyn mis Ionawr ychwanegwyd at y rhestr o'r aelodau oedd yn dymuno bod yn rhan o'r tîm a chynhaliwyd cwrs llawn ar ddiwedd Ionawr. Erbyn hynny roedd mwy o aelodau wedi dangos diddordeb yn y cynllun ac aethpwyd ati i gofrestru'r enwau a sicrhau DBS i bawb. Cyfarfu aelodau'r tîm i drafod y camau nesaf gan dderbyn cymorth a chyfarwyddyd gan eglwysi Gofalaeth Caron oedd wedi dechrau ar y

cynllun ers yn agos i ddwy flynedd. Cafwyd cadarnhad oddi wrth Yr Ysgol Gymraeg Aberystwyth ac Ysgol Rhydypennau y byddent yn



ein croesawu i'r gwasanaeth boreol unwaith bob pythefnos. Ar ôl derbyn y rhifau cofrestru drwy'r arweinydd tîm roedd gennym fynediad i'r adnoddau ar wefan Agor y Llyfr. Penderfynwyd ein bod yn dechrau ar y cynllun ar ôl y Pasg gan gyflwyno pedair stori o'r Testament Newydd tan yr haf a dechrau'r cynllun ym mis Medi gyda hanes y Creu. Yr ydym yn gwerthfawrogi cymorth aelodau o'r eglwysi sydd wedi paratoi'r gwisgoedd a'r adnoddau gweledol.

Erbyn hyn mae ugain ar ein rhestr, yn cynnwys dwy sydd yn aelodau yn Yr Eglwys Efengylaidd yn lleol ac Eglwys Sant Mihangel, felly nid oes rhaid i bawb fynd bob tro. Mae ymateb yr ysgolion yn ardderchog ac mae'n wefr i ni i fod yn rhan o addoliad yr ysgolion a gweld ymateb y plant. Mae'r canllawiau yn glir yn y llawlyfr a phwysleisiwyd ar y cwrs mai adrodd stori yw ein gwaith gan ddefnyddio Beibl Newydd y Storïwr a'r cyflwyniad o'r Llawlyfr.

Wrth gyflwyno'r stori Y Storm ar y Llyn derbyniwyd ymateb cadarnhaol i'r myfyrdod ar ddiwedd y stori.

Munud i Feddwl

Ydych chi'n pryderu am bethau weithiau? Gadewch i ni gau ein llygaid am funud a meddwl am y pethau sy'n gwneud i ni bryderu neu yn ein gwneud yn ofnus.
Nawr, fedrwch chi gofio beth wnaeth i chi beidio â bod yn ofnus?

Gweddi
Dduw annwyl, pan fyddwn yn bryderus neu'n ofnus a neb wrth law i siarad â ni, helpa ni i gofio dy fod tithau gyda ni ac nad ydym byth ar ein pennau ein hunain. Amen.

Henaduriaeth ym Moscow

Petai Eifion wedi mentro i Moscow ar gyfer gêm gyntaf Cwpan y Byd fe ellid bod wedi trefnu cyfarfod brys o'r Henaduriaeth yn y Kremlin. Roedd Dai Alun yno fel is-gadeirydd Cymdeithas Bêl-droed Cymru fel roedden ni'n sôn yn y rhifyn diwethaf o Perthyn. Ond roedd Wyn Morris yno hefyd, wedi gwneud cais am docyn pan oedd Cymru yn dal i obeithio cyrraedd gemau Cwpan y Byd, ac yno y buodd o am bron i wythnos cyn gweld yr un gêm â Dai Alun sef Rwsia yn erbyn Saudi Arabia. "Doedd hi fawr o gêm" yn ôl Wyn ac efallai y byddai is bwyllgor adeiladau yr Henaduriaeth wedi bod yn ddifyr yn ystod hanner amser. Ond yn anffodus nid yw dau yn ffurfio cworwm ar gyfer pwyllgor, a dyna lle roedd absenoldeb Eifion yn drysu pethau!

Ond a bod o ddifri am funud, roedd Wyn yn amlwg wedi cael amser wrth ei fodd. "Roedd yr awyrgylch yn y stadiwm ar ddechrau'r twrnament yn garnifalaidd" meddai. Roedd hi'n rhyngwladol iawn hefyd efo pobl o Iwerddon, Bangladesh, Mecsico a Rwsia o'i gwmpas a phawb yn gwybod am wlad Gareth Bale. Tystiodd fod y croeso yn Rwsia yn "gyfeillgar a chynnes" ond roedd wedi gwirioni ar y ffordd yr oedd "cefnogwyr o dde America yn bennaf wedi llenwi Moscow efo'u lliw a sain eu hofferynau" roedd y cyfan yn amlwg yn brofiad bythgofiadwy. Mwy cofiadwy na chyfarfod Henaduriaeth dwi'n siwr!

Newyddion

Anfonwn **ein cofion a'n dymuniadau gorau** at Megan Morris sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar ac at bawb sydd yn derbyn gofal ar yr aelwyd neu mewn cartref gofal.

Cydymdeimlwn â Marina Kenyon a'r teulu ar farwolaeth brawd Marina sef Mr. Islwyn Benjamin, Pontrhydfendigaid.

Priodas
Llongyfarchiadau i Elen Wyn a Simon Worman a briodwyd yn Aberdyfi ar Fehefin 9fed. Pob dymuniad da iddynt ar gyfer y dyfodol.

Geni
Llongyfarchiadau i Eifion ac Eirwen Lewis ar enedigaeth eu hwyres gyntaf, Isabella Nia – merch i Siôn ac Elizabeth Lewis a chwaer i Dylan ac Owen.

Llongyfarchiadau i'r holl blant a ieuenctid a gafodd lwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni yn unigol, fel aelod o ddeuawd, grŵp, cerddorfa, parti neu gôr ac mewn cystadlaethau gwaith cartref.

Hefyd **llongyfarchiadau** i'r rhai sydd wedi cwblhau eu cyrsiau mewn colegau. Dymunwn yn dda iddynt ar ddechrau gyrfa newydd neu wrth barhau gyda'u hastudiaethau.

Dymunwn yn dda i David a Shirley Harries a Dafydd Morgan Evans sydd wedi symud i'w cartrefi newydd yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Diolch i'r rhai a fu mor barod i gynorthwyo gyda pharatoi lluniaeth ar gyfer y pwyllgorau a fu'n cyfarfod yn y festri yn ystod y flwyddyn.

Newyddion Ebeneser

Cafwyd gwasanaethau bendithiol yn ystod y mis a chyfle i gofio am ein cyfeillion sydd methu ymuno â ni yn yr addoliad oherwydd eu hamgylchiadau.

Anfonwn ein cofion at Megan Morris sydd wedi treulio rhai wythnosau yn yr ysbyty ac at eraill sydd yn derbyn gofal ar eu haelwydydd ac mewn cartrefi preswyl.

Diolch i'r aelodau sydd yn gydwybodol iawn yn cymryd at y dyletswyddau yn Ebeneser o Sul i Sul ac i bawb sydd yn cyfrannu mewn unrhyw fodd at yr addoliad.

Diolch i'r rhai a gyfrannodd at y gwaith o godi arian yn ystod wythnos Cymorth Cristnogol eleni.

Trefnwyd Brecwast Mawr yn y Morlan ar 15 Mai rhwng 8.00 a 10.00 y bore a chasglwyd £200.

Gwnaed casgliad o dŷ i dŷ wrth ddosbarthu'r amlenni coch gan rai o aelodau'r Morfa a chodwyd £308.41.

Rhwng 21 a 24 Mai, trefnodd y pwyllgor lleol o eglwysi'r dref siop yn festri Seion a chafwyd elw o £760.44.

Diolch yn fawr i bawb a gefnogodd Cymorth Cristnogol mewn unrhyw fodd yn ystod mis Mai.

16 Gorffennaf - Cinio Bara a Chaws yn Neuadd y Waun, rhwng 12.00 a 1.30.

Croeso cynnes!

Gwibdaith Cymdeithas y Morfa

Bu edrych ymlaen ers blwyddyn at yr ymweliad â'r Ysgwrn, cartref Hedd Wyn ac yn enwedig wedi clywed darlith Dr. D. Ben Rees yn ein cyfarfod ym mis Tachwedd. Yn ôl ei arfer bu Hefin Jones yn gwneud paratoadau manwl ar gyfer y diwrnod gan gadw rhan helaeth o'r diwrnod yn ddirgel.

Roedd yr haul yn tywynnu pan adawsom Aberystwyth am hanner awr wedi naw o'r gloch a pharhaodd y tywydd i fod yn braf trwy gydol y dydd. Trefnwyd ein bod yn cael paned o goffi a phice bach yng Ngwesty Ty'n Cornel, Tal-y-llyn a mwynhau'r golygfeydd o'r llyn a'r mynyddoedd yn y cefndir. Gan ddisgwyl mynd ymlaen i gyfeiriad Trawsfynydd, annisgwyl oedd troi am y Bala ac i Eglwys Crist sydd y pen arall i'r dre. Cafodd yr eglwys ei hadnewyddu'n helaeth rai blynyddoedd yn ôl pan oedd y Parchedig Nia Morris yn offeiriad yno a phan unwyd cynulleidfaoedd eglwysi cyfagos i ffurfio un eglwys yn Y Bala. Mae'r tu allan wedi ei gadw yr un fath ond y tu mewn yn olau ac yn gyfoes gyda chegin a chyfleusterau newydd yng nghefn yr adeilad, cadeiriau glas cysurus y gellir eu symud a galeri

fechan ar y llawr uchaf gyda rhai o'r hen seddi wedi eu gosod yno. Yn ychwanegol at un gwasanaeth Cymraeg ac un arall dwyieithog bob Sul defnyddir yr adeilad ar gyfer clwb plant, cyngherddau a bob dydd Mercher fel man cyfarfod i drigolion y dre i fwynhau cinio gyda'i gilydd. Yn dilyn cyflwyniad i hanes yr eglwys a sut aethpwyd ati i'w trawsnewid, canwyd dau emyn i gyfeiliant organ newydd ac yna gwahoddwyd ni i eistedd wrth y byrddau yng nghefn yr eglwys a mwynhau cinio blasus o gawl traddodiadol a bara.

Ar ôl cinio aethom heibio cartref Michael D. Jones ar y chwith a Choleg y Bala ar y dde ac ymlaen i gyfeiriad Llyn Tryweryn a Thrawsfynydd. Cafwyd ysbaid am ychydig yn Fron-goch i glywed hanes gan Huw Owen am y gwersyll lle y bu carcharorion rhyfel o Iwerddon yn byw ac yn gweithio gan dderbyn croeso gan y trigolion lleol.

Wedi cyrraedd Yr Ysgwrn gwelwyd y golygfeydd tangnefeddus o Gwm Prysor a ysbrydolodd y bardd Hedd Wyn ac a wnaeth y profiad o adael am ffosydd Fflandrys yn un anodd iddo. Cyn mynd i fyny at y tŷ cawsom gyfle i weld arddangosfa ac ymweld â'r siop yn y ganolfan groeso ac yno y cawsom cyfle i fwynhau paned a chacen cyn gadael ddiwedd y prynhawn. Braf oedd cerdded i fyny'r rhiw fechan at yr Ysgwrn neu i eraill, taith bws mini. Cyn cael ein tywys o gwmpas y cartref dangoswyd ffilm fer yn yr hen feudy yn dangos effaith y rhyfel ar yr ardal a gwelwyd oriel o luniau

deg ar hugain o ddynion ifanc o ardal Trawsfynydd a gollwyd yn y rhyfel - yn eu plith, Hedd Wyn. Cawsom ein rhannu yn ddau grŵp wrth fynd o amgylch y tŷ. Braint oedd treulio amser yn y gegin yn clywed hanes y teulu a bywyd yn yr Ysgwrn yng nghyfnod Hedd Wyn hyd at yn ddiweddar gan ei nai Gerald. Yna gwelwyd Cadair Ddu Eisteddfod Penbedw cyn ymweld â'r gegin a gweddill y tŷ.

Ar y ffordd adref mwynhawyd pryd o fwyd blasus yn Ngwesty Pen-rhos, Cemaes a sicrhaodd Hefin ein bod yn cyrraedd adref yn ddiogel erbyn hanner awr wedi naw. Diolch yn fawr i Hefin am drefnu diwrnod diddorol a chofiadwy.

Gŵyl yr Ysgolion Sul

Gŵyl yr Ysgolion Sul yng nghwmni Criw Coleg y Bala. Yn y llun mae Elen Wyn yn cyflwyno £150, sef y casgliad i Jenny o Llys Helyg tuag at brynu adnoddau i'r bobl ifanc.

Crwydro Talybont

Taith gerdded ddifyr o gwmpas Talybont a pherygl glaw yn yr oedfa – neu ydi Mark yn awgrymu fod oedfa yn “sych” ?!

BLAENOR AM 40 MLYNEDD

Paratowyd y sylwadau isod ar gais John a Sarah, golygyddion Perthyn fis Gorffennaf, yn dilyn cyfarfod o Gymdeithasfa'r De, a gynhaliwyd ar 2 Mai yng nghapel Tabernacl Trefdraeth, sir Benfro. Cefais fy llongyfarch yno ar ddathlu 40 mlynedd fel blaenor: er rhaid cyfaddef nad wy'n siwr ai llongyfarch a dathlu oedd y geiriau mwyaf priodol!

Yn ystod y 40 mlynedd diwethaf bum yn gwasanaethu fel blaenor mewn tair eglwys ddigon gwahanol i'w gilydd. Un elfen gyffredin oedd fod y tair eglwys yn perthyn i gymunedau dinesig / trefol, ac felly yn wahanol iawn i'r un ble y'm maged, sef Bethel [nawr Capel y Drindod], Cross Hands, sir Gaerfyrddin: roedd y teitl a roddwyd i'r llyfryn a ysgrifennais yn 1982 ar ei hanes, sef 'Eglwys mewn pentref glofaol'; yn tanlinellu'r cyfleoedd gwaith a gynigiwyd i'r aelodau yno gan y glofeydd lleol.

Elfen gyffredin arall yn y dair eglwys y bum yn flaenor ynddynt oedd fod oedfaon cyson yn cael eu cynnal ynddynt gyda phum gweinidog dros y 40 mlynedd yn arwain y gwasanaethau ac yn cyflwyno pregethau grymus, ysbrydoledig a pherthnasol. Hefyd, gwelwyd brwdfrydedd ymhlith aelodau'r dair eglwys ac estynnwyd croeso cynnes i ymwelwyr ac i aelodau newydd. Caewyd un o'r dair eglwys, sef Y Tabernacl ond gwelwyd y rhinweddau uchod yn y ddwy eglwys arall yn ystod y cyfnod cyfan dan sylw. Canolbwyntir y sylwadau isod ar y ddwy eglwys gyntaf y bum yn flaenor ynddynt, a hoffwn bwysleisio fod gennyf brofiadau cadarnhaol tebyg ar sail fy aelodaeth yng Nghapel y Morfa.

Cefais fy ethol yn flaenor yn Salem, Treganna, Caerdydd, yn 1978 ac yn ystod fy nghfnod yno bum yn Ysgrifennydd yr eglwys. Gwelwyd ychwanegiad bychan yn yr aelodaeth. gan gyrraedd 81 pan adewais yn 1985. Datblygiad diddorol a chyffrous erbyn hynny oedd i nifer sylweddol ymuno yn y gynulleidfa ac mewn gweithgareddau yn dilyn sefydlu ysgolion Cymraeg ac ysgolion meithrin llewyrchus yn yr ardal, a chynnal Clwb Trwro hynod o fywiog yn y Festri. Bu cynnydd eithriadol yn aelodaeth Salem yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan dyfu yn uwch na 300 ynghyd â nifer helaeth o blant a gwrandawyr: datblygiad sydd yn adlewyrchu twf eithriadol nifer y Cymry Cymraeg sydd yn byw yn ardaloedd Treganna a Phontcanna.

Yn ystod fy nghyfnod i, cynhaliwyd nifer o weithgareddau yn Salem, gyda Chymdeithas y Gadwyn yn trefnu Gwasanaeth Nadolig a Chinio Gŵyl Dewi. Roedd gennyf ddosbarth Ysgol Sul bywiog iawn gyda dau o'r bechgyn heddiw ymhlith cefnogwyr mwyaf brwd a swnllyd tîm peldroed Cymru! Perfformiwyd dramâu mewn cystadleuaeth a gynhaliwyd yn Thestr y Sherman. Hefyd, cynhaliwyd trip Ysgol Sul blynyddol gyda chyfres o gémau criced hynod gystadleuol ar draethau Bro Gŵyr yn parhau o un flwyddyn i'r un nesaf!

Wrth ddychwelyd i Aberystwyth roedd gennyf atgofion pleserus am y cyfnod hapus a dreuliais cyn hynny yn y dref, gan fynychu oedfaon yn Salem a Seilo am flynyddoedd cyn ymaelodi yn Y Tabernacl gan i'm gwraig Mary gael ei chodi yno. Yn dilyn fy ethol yn

flaenor, elwais eto o fod yn rhan o gymdeithas glòs a bod ynghanol nifer o weithgareddau.

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn yno oedd y Swper Gŵyl Ddewi a drefnwyd yn y Festri gan Gymdeithas yr Ofalaeth gyda gwŷr o'r ddwy eglwys, Y Tabernacl a'r Morfa, yn gyfrifol am weini ar y byrddau. Bu'r Festri yn orlawn hefyd ar achlysuron eraill, gan gynnwys ymweliadau hynod boblogaidd Cwmni Drama Rhosygar, Rhydaman. Noson gofiadwy arall yn y capel oedd yr un ar 18 Mai 1989 pan ddathlwyd canmlwyddiant geni Gwenallt yng nghwmni ei weddw a'i deulu. Cafwyd hefyd gémau criced cyffrous gyda rhieni'r Tabernacl a'r Morfa yn wynebu ieuenctid y ddwy eglwys.

Er fod gan eglwys Y Tabernacl gyllid sylweddol ac aelodaeth o 118 ar ddiwedd 2011, bu'n rhaid ystyried yn ofalus a ddylid ymgymryd â chostau atgyweirio sylweddol, yn enwedig gan ein bod yn ymwybodol fod eglwys arall yn perthyn i'r un Cyfundeb yn y dref. Yn 2001 pleidleisiwyd i ddirwyn yr achos i ben ac i gymell yr aelodau i ymuno yng Nghapel y Morfa.

Cynhaliwyd ar 29 Medi 2002 oedfa i ddiolch am dystiolaeth Capel y Tabernacl dros gyfnod helaeth, yn ymestyn o 1785 tan 2002. Yna, ar ddechrau Hydref 2002 oedfaon arbennig i ddathlu uniad y ddwy eglwys. Ymunodd 75 o aelodau'r Tabernacl yn Nghapel y Morfa ac mae'r rhai hynny ohonom a fu'n rhan o'r digwyddiad hwnnw yn parhau i werthfawrogi'r croeso a estynnwyd i ni yn yr eglwys hon.

D. Huw Owen

PERTHYN

MISOLYN CAPEL Y MORFA

Ebeneser (1812/1848)
Tanycae (1877)
Tabernacl
(1785)

Skinner Street (1839)
Seilo (1863)
Salem (1893)
Capel y Morfa
(1989)



Ohio, Madagasgar a Cheredigion.

Roedd mis Mehefin yn gyfnod o gofio yng nghanol Ceredigion. Cofio cenhadon a deithiodd o Neuadd-lwyd Aberaeron i Fadagasgar wnaed ddechrau'r mis, cofio dau gwpwl a fentrodd ar draws y byd yn 1818. Ac yna ddiwedd y mis cofio chwe theulu a fudodd o Geredigion i Ohio.

David a Louisa Jones a Thomas a Mary Bevan oedd y pedwar cenhadwr a ordeiniwyd yn Neuadd-lwyd. Ar y daith ac yna wedi cyrraedd Madagasgar bu farw pawb ond David Jones o malaria. Roedd rhaid penderfynu wedyn beth i'w wneud - parhau neu ddychwelyd adref. Penderfynodd aros a gyda cymorth David Griffiths o Sir Gaerfyrddin fe ddysgodd yr iaith Malagasi a chyfieithu'r Beibl cyfan i'r iaith. Bellach mae Cristnogion Madagasgar yn cofio'u gwaith a'u haberth. Cynhaliwyd digwyddiad mawr mewn sied geffylau ar dir Penrhiw, sef cartref David Jones, a daeth chwe chant o bobl yn cofio'u hanes. Bydd rhaglen ddogfen ar yr hanes ar Radio Cymru ar y 18fed o Awst sef y diwrnod y glaniodd David Jones am y tro cyntaf ym Madagasgar. Dyna gofio menter ac awydd cenhadol dau deulu duwiol.

Wedyn ddiwedd y mis roedd y sylw yn troi at y Cardis a fudodd i Ohio. Fe ddechreuodd y cyfan ddau gan mlynedd yn ôl pan benderfynodd chwe theulu o Ddyffryn Aeron fudo ynghyd i Ohio. Roedden nhw yn chwilo am well byd, ac am fyd lle byddai eu crefydd yn cael chwarae teg hefyd. Ymhlith y digwyddiadau dathlu yr oedd Cymanfa

awyr agored ar y Mynydd Bach ger Trefenter. Dan haul braf arweiniwyd y cannoedd ddaeth yno i ganu gan Delyth Phillips.

Ond y mae gan Gapel y Morfa gysylltiad agos â'r dathlu gan fod Dan Rowbotham yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Rio Grande, Ohio ar hyn o bryd ac yn weithiwr yng nghanolfan Madog – sef canolfan Gymraeg y Brifysgol. Yn ôl Dan y mae cysylltiad y Cymry ag Ohio cyn bwysiced bob tamaid â'r cysylltiad gyda'r Wladfa ym Mahtagonia. Aeth oddeutu tair mil o Gardis i Ohio ac yn ôl Dan y mae'r Cymry yno yn falch o'u tras hyd heddiw, "Fel rhywun o Geredigion, dw i wedi gweld llinachau teulu pobol sy'n dod o'r un ardal â mi, sy'n ddiddorol iawn. Mae pobol yn hynod o falch i ddweud bod ei hen, hen dad-cu neu fam-gu yn dod o'r ardal. Mae'n nhw'n rhoi baner Cymru y tu fas i'w ffermydd nhw, ac yn Rio Grande, mae baner Cymru ar sawl postyn gole ar hyd y pentref."

"Mae lot o bobol ishe gwybod am eu treftadaeth nhw eu hunan hefyd," ychwanegodd, "rydyn ni'n dathlu pethe fel dydd Gŵyl Dewi, ac yn cael Cymanfa." Gan eu bod mor hoff o Gymanfa roedd cryn dipyn o ddisgynyddion y Cardis ar y Mynydd Bach ddydd Sul 24 Mehefin i ddathlu a chofio. Mae' amlwg fod Dan wrth ei fodd yn Ohio ac y mae ganddo flwyddyn arall i fyw, astudio a gweithio yn Rio Grande. Dymunwn yn dda iawn iddo yno.

Dyddiadur Gorffennaf 2018

Gwasanaethau'r Sul 10.00 a 6.00 yn y Morfa,
2.15 yn Ebeneser

1 Eifion Roberts (cymun nos)
8 Eifion Roberts
15 Eifion Roberts (bore – gwasanaeth diwedd tymor yr Ysgol Sul)
John Roberts (prynhawn a nos)
22 R Alun Evans
29 Eifion Roberts

Ysgolion Sul
Plant ac Ieuenctid: bore am 10.00

Clwb Hwyl Hwyr – bob prynhawn Llun, 3.45-5.00 yn Eglwys Dewi Sant
Clwb Ieuenctid – bob prynhawn Llun, 3.45-5.00 yn Eglwys Dewi Sant
Cylch Gweddi a Choffi – bore Mawrth am 10.30 yn Morlan
Astudiaeth Feiblaidd – nos Iau am 7.15 yn Morlan
Ffydd a Phaned – prynhawn Gwener am 2.00 yn Morlan

Nodyn o ddiolch

Hoffwn i a Simon ddiolch o galon am y cyfarchion, cardiau, ac anrhegion a dderbyniom ar achlysur ein priodas yn ddiweddar. Cawsom ddiwrnod bendigedig yng nghwmni teulu a ffrindiau. Diolch hefyd i Eifion am ei eiriau arbennig.

Cofion gorau,

Elen a Simon Worman

Swyddogaethau Gorffennaf 2018

Blaenor y mis: Brian Thomas
Porthorion: Eleri Davies, Dafydd Morgan Evans, Noel Lloyd, Dilys Lloyd

Blodau'r Cysegr: Y Morfa
1 Eifion ac Alwen Roberts
8 Dai Alun a Jane Jones
15 Ellen a Huw Evans
22 Menna ac Eirian Evans
29 Mary a Brian Thomas

Blodau: Ebeneser
1 Susan Hughes
8 Denise Morgan
15 Mattie Shaw
22 Siân Powell
29 Hilda Williams

Cynorthwywyr Llestri Cymun
1 (nos) Gwerfyl Pierce Jones, Menai Lloyd Williams, Eileen Jones, Amelia Davies

Cynorthwywyr Ariannol
1 Meirion Morgan a Menai Lloyd Wiliams
8 Brian Thomas a Dafydd Morgan Evans
15 Ellen Llwyd-Evans a Hefin Jones
22 Megan Hughes a Catrin Griffiths
29 D. Meirion Jones a Beti Roberts

Tregerddan
29 Huw Owen

Cinio Bara a Chaws
16 Neuadd Waunfawr

Cofiwch am Wasanaeth Diwedd Tymor Yr Ysgol Sul

Bore Sul, Gorffennaf 15 am 10 o'r gloch
Thema: Dathlu

BYW Y BEIBL

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

Mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn chwilio am Weinyddydd Rhan Amser. Y swydd i'w lleoli yng Nghanolfan Ffydd a Diwylliant y Morlan, yn Aberystwyth.

Oriau – 17.5 awr yr wythnos
Tymor – Parhaol gyda'r chwech mis cyntaf yn gyfnod prawf.
Cyflog - £17,783 - £19,787 pro rata pwynt 13–17 ar yr graddfa EBC

Am ddisgrifiad swydd a ffurflen gais, cysylltwch â'r swyddfa: 02920 627465. E-bost: swyddfa.office@ebcpcw.org.uk Dyddiad cau: 4 o'r gloch, Dydd Mawrth, 20 o Gorffennaf 2018.

Golygyddion y rhifyn hwn o Perthyn ydi Sarah a John. Cyfraniadau ar gyfer rhifyn Awst/Medi o PERTHYN at sharonowen527@btinternet.com neu rocetarwel@yahoo.com erbyn dydd Gwener, 20 Gorffennaf os gwelwch yn dda.

Gweddïwn

Arglwydd, diolchwn am yr adnewyddiad
a rydd gwyliau i'n bywyd:
am gyffro'r disgwyl a'r cynllunio;
am ryddid oddi wrth ddyletswyddau bob dydd;
am brofiadau a chyfleon newydd.
Rhoddaist fyd rhyfeddol i ni:
ble bynnag yr awn fe'n hamgylchynir
gan bethau sy'n bleser i'r llygaid
ac yn faeth i'r meddwl.
Helpa ni i ddefnyddio'n gwyliau
i ganfod dy ogoniant di yn dy greadigaeth;
i ddefnyddio'n rhyddid i ddeall yn gliriach
y cyflawnder bywyd yr wyt ti'n ei gynnig i ni'n barhaus.
Derbyn ein diolch am gyfoeth amrywiol bywyd,
dy rodd di i ni;
a phan ddaw ein gwyliau i ben,
arwain ni'n ôl i'n cartrefi yn ddiogel,
wedi'n hadnewyddu a'n hysbrydoli
o gael gorffwys a chael mwynhau
rhyfeddodau dy fyd di. Amen

Roy Chapman allan o *Amser i Dduw*, Gol. Elfed ap Nefydd Roberts